**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Adfer a Chenedlaethau'r Dyfodol

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 26 Ionawr 2021 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd V M Evans (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | J A Hale | P K Jones |
| M Sherwood | L V Walton | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| Y V Jardine | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Sally-Ann Evans | Cyfreithiwr Arweiniol |
| Kate Jones | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): P B Smith a L J Tyler-Lloyd

---

## 18 Derbyn Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 19 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Cydraddoldebau a Chenedlaethau'r Dyfodol a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2020 fel cofnod cywir.

## 20 Adfer a Chenedlaethau'r Dyfodol.

Darparodd yr Arweinydd/Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth ddiweddariad am ymateb y ddinas i bandemig COVID-19 a'i hadferiad.

Nododd yr Arweinydd fod gostyngiad cyson yn nifer yr heintiau yn ogystal â dilyniant cyflym i'r rhaglen frechu, gyda'r holl feddygfeydd a Chanolfannau Brechu Torfol ar waith. Roedd unedau symudol i fod i ddechrau cyn bo hir.

O ran Adferiad, tynnodd yr Arweinydd sylw at 3 phennawd allweddol i'w hystyried:

1. Gwasanaethau sydd wedi cael eu hail-lunio yn ystod y pandemig - pa newidiadau a allai fod yn addas ac yn llwyddiannus yn y tymor hir
2. Newidiadau i'r ffyrdd o weithio, yn benodol gydag Awdurdodau Lleol eraill a Phartneriaid Trydydd Parti – e.e. defnyddio cyfarfodydd o bell
3. Yr hyn y gall y cyngor ei wneud i gefnogi busnesau a chymunedau yn dilyn COVID-19 – gwneud preswylwyr Abertawe ac economi Abertawe yn flaenllaw o ran yr hyn a wnawn

Byddai'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) sydd ar y gweill yn darparu'r pŵer cymhwysedd cyffredinol, gan roi rhagor o gyfleoedd i Awdurdodau Lleol yng Nghymru ddarparu gwasanaethau gwahanol. Dylid ystyried effaith y Bil hwnnw ac a oedd unrhyw wasanaethau y gallai'r cyngor fod mewn sefyllfa dda i'w cynnal neu i gymryd mwy o ran ynddynt – e.e. trafnidiaeth

Dangosodd adroddiad annibynnol fod Abertawe wedi'i dynodi i arwain adferiad swyddi Cymru eleni gyda thwf rhagamcanol o 8.1%. Roedd yn hanfodol parhau i symud ymlaen gyda datblygu a chreu swyddi i sicrhau bod y cyfleoedd a'r swyddi ar gael i Abertawe. Disgwylid y byddai nifer o swyddi newydd yn cael eu creu dros y flwyddyn neu ddwy nesaf yn Abertawe.

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Yr effaith ar niferoedd myfyrwyr prifysgol – disgwylir twf o hyd ond ar gyfradd is o bosib
- Digideiddio – effeithiau posib ar swyddi a gwahanol ffyrdd o weithio
- Datblygu diwydiant twristiaeth – pwysigrwydd gwella a gwneud y gorau o'r diwydiant twristiaeth fel rhan o'r adferiad o COVID-19
- Effaith cau Debenhams ar Abertawe a ledled y wlad – negeseuon clir ar benderfyniad cenedlaethol, nid Abertawe yn unig
- Ffyrdd o ddenu siopau enwau mawr i Abertawe – hyder yn y ddinas a mwy o ymwelwyr
- Gwaith Staff yn ystod y Pandemig – ymrwymiad a hyblygrwydd staff i gynnal gwasanaethau ac arallgyfeirio i ddarparu gwasanaethau newydd
- Mae angen cynnig gwell o ran cludiant – ystyried yr holl gynlluniau trafnidiaeth posib e.e. rhannu ceir, beic trydan
- Effeithiau Brexit ar dwristiaeth – colli arian ar gyfer Acwariwm Digidol ac opsiynau ariannu eraill sydd ar gael e.e. Cronfa Ffyniant Gyffredin
- Effaith Brexit ar ddenu myfyrwyr rhyngwladol heb fod yn rhan o Gynllun ERASMUS mwyach
- Adfywio'r Stryd Fawr

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arweinydd

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 21 Cynllun Gwaith 2020/21.

Cyflwynodd y Cadeirydd Gynllun Gwaith 2020/21 a nododd y byddai gweithdy'n cael ei drefnu cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Chwefror.

Trefnwyd i Adam Hill ddod i'r Pwyllgor ym mis Mawrth i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Adfer.

**Penderfynwyd** nodi'r cynllun gwaith ar gyfer 2020-21 yn unol â hyn.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.05 pm

**Cadeirydd**